Mae **Orbit360** yn system adborth cleifion a chydweithiwr penodol o'r pen i'r diwedd, yn rhoi adborth gan gydweithiwr sy'n integreiddio'n uniongyrchol i'r System Ailddilysu Arfarnu Meddygol (MARS).
Datblygwyd y system gan yr Uned Cymorth Ailddilysu a'r Tîm Digidol, fel rhan o Addysg a Gwella Iechyd Cymru, i gefnogi pob meddyg sydd â chysylltiad rhagnodedig â chorff a ddynodwyd gan y GIG yng Nghymru

# Rhoi adborth i'ch meddyg

Os gofynnwyd i chi roi adborth ynglŷn â'ch meddyg, mewn cysylltiad â'r gofal a'r driniaeth rydych wedi'i chael, byddem yn eich annog i gymryd rhan. Mae ar eich meddyg eisiau adborth ynglŷn â beth mae'n ei wneud yn dda a sut y gall wella'r gofal mae'n ei roi – *mae eich barn chi'n gwneud gwahaniaeth.*

## Sut mae'n gweithio?

### CAM 1
**Rhoi eich adborth**

Rydych chi'n profi drosoch eich hun sut ofal mae eich meddyg yn ei roi. Felly, rydych mewn sefyllfa dda i allu dweud wrth eich meddyg beth mae'n ei wneud yn dda, a beth y gallai wneud yn well.
Does dim rhaid i chi roi adborth, ond os byddwch yn gwneud byddwch yn rhoi gwybodaeth werthfawr. Ni fydd eich meddyg yn gweld eich ymateb unigol chi.

### CAM 2
**Defnyddio eich adborth**

Mae eich meddyg yn dysgu o'ch adborth. Bob blwyddyn rhaid i'ch meddyg adolygu ei waith yn ffurfiol pan fydd yn cael arfarniad. Bydd yn siarad am yr adborth mae weid'i gael gan ei gleifion, a beth mae hyn yn ei ddweud wrtho am ei bractis arfarn.

### CAM 3
**Gwell gofal i gleifion**

Gan ddefnyddio'r adborth, bydd eich meddyg yn nodi'r pethau mae'n eu gwneud yn dda- er mwyn iddo ef/hi ddal i allu eu gwneud- a hefyd pa agweddau y gallai eu gwella.
Bydd yn edrych sut y gall wneud newidiadau ymarferol i'r ffordd y mae'n gweithio er mwyn gwella'r gofal y mae'n ei roi i'w gleifion.

**Os oes arnoch angen holiadur mewn fformat arall dylech ofyn i'r sawl a ofynnodd i chi ei lenwi. Gall gofalwr, ffrind neu berthynas hefyd eich helpu i roi eich adborth.**

[Y Cyngor Meddygol Cyffredinol – 'Working with doctors, working for patients' – 2016]

## Cwestiynau Cyffredin

### Gofynnwyd i mi roi adborth. Ar gyfer beth mae hyn?

Mae'n ofynnol i feddygon trwyddedig ofyn am adborth ffurfiol gan gydweithwyr a chleifion o leiaf unwaith bob 5 mlynedd, er mwyn casglu'r wybodaeth ategol maen nhw ei hangen ar gyfer ailddilysu. Cyfeirir at hyn hefyd fel Adborth Aml-ffynhonnell (MSF) neu adborth 360.

Mae adborth ffurfiol yn ein galluogi i gasglu barn cleifion a chydweithwyr mewn ffordd systematig. Bydd hyn yn helpu'r meddyg i adfyfyrio ar ei sgiliau proffesiynol.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Defnyddir yr adborth gan y meddyg;

- Fel offeryn dysgu a datblygu. Gallai'r adborth nodi cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella. Bydd hyn yn helpu'r meddyg i wella'i ddatblygiad proffesiynol
- Fel un o nifer o ddarnau o wybodaeth a fydd yn helpu i benderfynu a ddylid argymell bod meddyg yn cael ei ailddilysu

### A yw'r broses hon yn ddienw?

Mae'r broses yn gwbl ddienw. Dylech wneud yn siŵr nad ydych yn rhoi unrhyw wybodaeth bersonol wrth lenwi'r ffurflen. Pan fydd y ffurflenni sydd wedi'u cwblhau'n cael eu dychwelyd i ni bydd y data'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Bydd y data'n cael eu coladu a'u dadansoddi mewn adroddiad y gall y meddyg ei ddefnyddio i adfyfyrio.

### Hoffwn roi adborth ar-lein. Sut mae gwneud hyn?

Gall cleifion lenwi ffurflen bapur, neu gallwch gyflwyno adborth yn electronig gan ddefnyddio cod diogel. Ar dop pob ffurflen bydd cod unigryw a chyfeiriad gwefan. Os byddwch yn rhoi adborth yn electronig gallwch roi'r ffurflen bapur yn ôl i'r derbynnydd neu aelod o'r staff er mwyn iddyn nhw allu cael gwared ar y ffurflen.

### Hoffwn roi adborth ar ffurflen bapur. Sut mae gwneud hyn?

Yn syml iawn, llenwch y ffurflen, gan wneud yn siŵr nad ydych yn ysgrifennu unrhyw fanylion sy'n datgelu pwy ydych chi. Bydd y staff lleol yn dweud wrthych beth yw'r camau nesaf.

## Awgrymiadau ar gyfer rhoi adborth

**BBYDDWCH YN ONEST** – Ni fydd eich adborth yn ddefnyddiol os nad yw'n onest ac yn helpu eich meddyg i ddeall beth y gall ei wneud er mwyn bod yn feddyg gwell. Dywedwch wrth eich meddyg beth mae'n ei wneud yn dda er mwyn iddo/iddi ddal i wneud hynny. Dywedwch wrth eich meddyg beth fyddech chi'n hoffi iddo/iddi wneud yn wahanol er mwyn iddo/iddi allu gwella.

**EGLURWCH EICH SGÔR** – Gofynnir i chi roi sgôr i'ch meddyg ar gyfer gwahanol agweddau ar ei ofal / ei gofal. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi mwy o wybodaeth yn y blwch sylwadau, yn enwedig os ydych wedi rhoi sgôr isel. Bydd yn helpu eich meddyg i ddeall eich adborth.

**RHOWCH ENGHREIFFTIAU** – Dywedwch beth mae eich meddyg wedi'i wneud, yn hytrach na gwneud sylwadau cyffredinol. Er enghraifft, yn lle ysgrifennu "Do'n i ddim yn deall", rhowch "Do'n i ddim yn deall oherwydd roeddech chi'n defnyddio llawer o eiriau meddygol oedd yn golygu dim i mi". [Y Cyngor Meddygol Cyffredinol – 'Working with doctors, working for patients' – 2016]

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am roi adborth i'ch meddyg ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol- www.gmcuk.org/patientfeedback

## Gwneud cwyn am eich meddyg

Yn y lle cyntaf, os ydych am wneud cwyn am eich meddyg, dylech wneud hynny drwy ysbyty'r GIG, practis meddyg teulu, ysbyty preifat neu glinig lle y gwnaethoch dderbyn eich gofal. Bydd gan bob corff broses gwyno i'w dilyn, mae hon yn broses ar wahân i roi adborth am eich meddyg drwy'r arolwg hwn.
Bydd y tîm lleol yn ceisio datrys eich pryder ar unwaith. Os nad yw hyn yn helpu, gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd neu'r ymddiriedolaeth. Gellir cael eu manylion drwy 'Galw Iechyd Cymru' ar 0845 4647 neu http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cysylltuni/pryderoncysylltiadau

Gallwch barhau i gwblhau'r arolwg adborth os penderfynwch wneud cwyn ar wahân.

orbit360™ GIG CYMRU NHS WALES Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)